# Crynodeb gweithredol

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad, 'Pensiynau Barnwrol: Ymateb arfaethedig i *McCloud*', ar 16 Gorffennaf 2020. Roedd yn gwahodd sylwadau ar gynigion y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer mynd i'r afael â'r gwahaniaethu a nodwyd yn achos *McCloud*[1], a oedd yn honni bod diwygiadau pensiwn barnwrol 2015 yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn barnwyr iau drwy gynnig diogelwch trosiannol i'r rheini oedd agosaf at ymddeol.

Roedd yr ymgynghoriad yn nodi'r meini prawf ar gyfer bod o fewn cwmpas dyfarniad *McCloud* ac yn cynnig y dylai'r barnwyr dan sylw gymryd rhan mewn 'ymarfer opsiynau' yn 2022. Byddai hyn yn caniatáu iddynt wneud dewis ôl-weithredol i fod yn aelod o gynllun pensiwn wedi'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2015, pan ddechreuodd y gwahaniaethu, tan 31 Mawrth 2022, ac ar ôl hynny byddai pob barnwr yn symud i gynllun pensiwn diwygiedig. Dyma'r dewisiadau a fyddai ar gael yn yr ymarfer opsiynau: y cynllun cyn 2015, Cynllun Pensiwn Barnwrol 1993 (JUPRA) (neu'r cynllun cyfatebol i'r rhai sy'n derbyn ffi, y Cynllun Pensiwn Barnwrol i Farnwyr sy'n Derbyn Ffi (FPJPS)) neu gynllun 2015, y Cynllun Pensiwn Barnwrol Newydd 2015 (NJPS). Byddai'r ymarfer opsiynau hefyd yn delio â manylion technegol y dewis, er enghraifft o ran trethi a chyfraniadau blaenorol.

Cawsom gyfanswm o 33 o ymatebion i'r ymgynghoriad: 15 gan gymdeithasau barnwrol a 18 gan farnwyr unigol. Er bod yr ymatebwyr yn croesawu'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar y cyfan, roedd pryderon ynghylch y cynnig ar gyfer ymarfer opsiynau. Teimlai llawer o'r ymatebwyr y dylai barnwyr allu dychwelyd at JUPRA/FPJPS cyn 2022 os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Ar ôl ystyried yr holl ymatebion yn ofalus, rydym yn dal i fod o'r farn mai cynnal ymarfer opsiynau yn 2022 yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r gwahaniaethu. Byddai'n caniatáu i farnwyr ystyried, cyn gwneud eu penderfyniad, eu gyrfa a'u datblygiad cyflog eu hunain yn ystod y cyfnod unioni, gan gynnwys effaith cap gwasanaeth 20 mlynedd JUPRA/FPJPS. Er bod dychwelyd i JUPRA/FPJPS yn mynd i fod yn fuddiol i'r rhan fwyaf o'r barnwyr, efallai y bydd rhai yn teimlo y byddai'n well dewis bod yn aelod o NJPS.

Bydd dychwelyd barnwyr i JUPRA/FPJPS – ac ôl-ddyddio'r penderfyniad hwn i 1 Ebrill 2015 – hefyd yn dasg enfawr, gyda chryn dipyn o ofynion o ran deddfwriaeth a data. Mae'n bwysig felly bod y broses yn cael ei chynllunio a'i bod yn rhedeg yn esmwyth.

Bydd barnwyr o fewn cwmpas McCloud os oeddent o dan 55 oed ar 1 Ebrill 2012 ac yn gwasanaethu ar neu cyn 31 Mawrth 2012 ac ar neu ar ôl 1 Ebrill 2015, ac yn gymwys i gael pensiwn barnwrol ar y dyddiadau hynny. Dylai cyfnodau gwasanaeth fod yn barhaus, yn amodol ar doriad cymwys mewn gwasanaeth o lai na phum mlynedd.

Bydd y rheini sydd eisoes wedi ymddeol neu sydd ar fin ymddeol cyn yr ymarfer opsiynau yn gallu gwneud eu dewis yn gynt. Bydd hyn yn sicrhau bod modd talu'r pensiwn a'r cyfandaliadau cywir cyn gynted ag y bo modd ar ôl ymddeol.

Mae'r ddogfen hon hefyd yn egluro sut yr ymdrinnir â threthi a chyfraniadau blaenorol lle bydd barnwyr yn newid i fod yn aelod o gynllun pensiwn gwahanol yn ôl-weithredol.

---

[1] *Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ac un arall v McCloud ac eraill; Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref ac eraill v Sargeant ac eraill, [2018] EWCA Civ 2844*

Bydd y llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth pan fydd amser seneddol yn caniatáu hynny er mwyn mynd i’r afael â’r gwahaniaethu a nodir yn *McCloud* ac wedyn yn sicrhau chwarae teg ar draws y farnwriaeth drwy symud pob barnwr i gynllun pensiwn diwygiedig newydd. Yn amodol ar amserlenni seneddol ac ar gymeradwyo, rydym yn rhagweld y byddai’r cynllun diwygiedig yn dechrau ar 1 Ebrill 2022, gyda’r ymarfer opsiynau’n cael ei gynnal yn ddiweddarach y flwyddyn honno. Bydd angen deddfwriaeth bellach i ddiwygio rheoliadau perthnasol y cynllun, a fydd yn destun ymgynghoriad arall.

Mae Atodiad A yn cynnwys rhestr o’r cymdeithasau cyfreithiol a barnwrol a ymatebodd.